**Proffil whatimpact Cyngor Dinas Casnewydd**

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

**TROSOLWG**

***Themâu grant***

- Diwylliant
- Treftadaeth
- Chwaraeon

***Ardaloedd gweithredu***

- Cymru: Casnewydd

***Grantiau cymunedol CDC***

Mae dyraniadau grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, treftadaeth a diwylliant yn cefnogi gweledigaeth Dinas Casnewydd i ddod yn '*Gasnewydd Uchelgeisiol, Decach, Werddach i Bawb*'. Mae'r grantiau'n dilyn blaenoriaethau buddsoddi 'Cymunedau a Lleoedd' y CFfG, ac mae CDC wedi dewis nifer o ymyriadau CFfG i'w blaenoriaethu. Mae'r ymyriadau hyn yn cyd-fynd ag amcanion strategaeth 2022-2027 Cyngor Dinas Casnewydd a meysydd ffocws ategol.

Mae pob ymgeisydd yn gwneud cais am grantiau drwy'r platfform rheoli grantiau whatimpact.com. Gellir gwneud cais am grantiau tan ddiwedd 2024 ar gyfer prosiectau sy'n cael eu gweithredu yn 2024/2025. Mae ceisiadau'n cael eu hasesu wrth iddynt gael eu derbyn. Rydym yn eich annog i wneud cais cyn gynted â phosibl, gan y bydd dyraniadau'n cael eu gwneud ar sail y cyntaf i'r felin.

***Diben y Grantiau***

Bydd y grantiau'n cefnogi cymuned leol Casnewydd drwy weithgareddau ac ymyriadau a gynhelir gan y sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau eraill. Mae tri chynllun grantiau gwahanol i gefnogi gweithgareddau, ymyriadau a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â threftadaeth, diwylliant a chwaraeon. Gellir gwneud cais am y grantiau a'u defnyddio ar gyfer cyllid cyfalaf a refeniw.

Amcan lefel uchel cyntaf grantiau CFfG yw gwella gwead cymdeithasol ac ymdeimlad o falchder lleol. Gwneir hyn trwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gwella cysylltiadau corfforol, diwylliannol a chymdeithasol a mynediad at amwynderau. Yr ail amcan yw creu cymdogaethau gwydn, iach a diogel a dod o hyd i ddulliau arloesol o atal troseddu.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

**GRANTIAU A NODAU**

***Grantiau a Nodau Chwaraeon***
***Cynllun Grantiau Chwaraeon 2024-2025***

115 mil
Maint blynyddol y cynllun hwn

£1mil i  £30mil
Gwerth y grantiau sydd ar gael

Chwef 2024- Rhag 2024
Cyfnod ymgeisio.

***Ein nod yw gwneud gwahaniaeth.***

1. Cyllid ar gyfer prosiectau gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol effeithiol i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a dynol mewn ardaloedd lleol.

2. Cyllid ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, twrnameintiau, timau a chynghreiriau lleol; i ddod â phobl ynghyd.

3. Buddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth seilwaith ar gyfer cymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Powered by Levelling Up
Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro

**GRANTIAU A NODAU**

***Grantiau a Nodau Treftadaeth***
***Cynllun Grantiau Treftadaeth 2024-2025***

190 mil
Maint blynyddol y cynllun hwn

£1mil i £30mil
Gwerth y grantiau sydd ar gael

Chwef 2024- Rhag 2024
Cyfnod ymgeisio.

***Ein nod yw gwneud gwahaniaeth.***

1. Cymorth i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol.

2. Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i chrwydro.

3. Cyllid ar gyfer prosiectau gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol effeithiol i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a dynol mewn ardaloedd lleol.

4. Buddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth seilwaith ar gyfer cymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

**GRANTIAU A NODAU**

***Grantiau a Nodau Diwylliant***
***Cynllun Grantiau Diwylliant 2024-2025***

500 mil
Maint blynyddol y cynllun hwn

£1mil i £30mil
Gwerth y grantiau sydd ar gael

Chwef 2024- Rhag 2024
Cyfnod ymgeisio.

***Ein nod yw gwneud gwahaniaeth.***

1. Cymorth i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol.

2. Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i chrwydro.

3. Cyllid ar gyfer prosiectau gwirfoddoli a/neu weithredu cymdeithasol effeithiol i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol a dynol mewn ardaloedd lleol.

4. Buddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth seilwaith ar gyfer cymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

**CYMORTH I WNEUD CAIS**

***Grantiau Chwaraeon***

Mae'r cwmpas ar gyfer prosiectau chwaraeon a gweithgareddau a ystyrir ar gyfer grantiau yn eang, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, gweithgareddau clybiau chwaraeon, gweithgareddau iechyd a lles drwy ymarfer corff, defnyddio chwaraeon i greu cymunedau mwy unedig ac unigolion cryfach. Mae maint y grantiau ar gyfer pob un o'r tri chynllun yn amrywio o £1,000 - £30,000.

Gellir gwneud cais am grantiau ar gyfer cyfuniad o ddeunyddiau, digwyddiadau, lleoedd, offer, technoleg, prosiectau, cyflogau, gwasanaethau a chostau cynnal prosiectau. Mae angen i brosiectau/gweithgareddau fod o fudd i'r gymuned leol naill ai'n uniongyrchol neu drwy fanteision a grëir gan e.e. nifer gynyddol o ymwelwyr a chyfleoedd busnes.

***Grantiau Treftadaeth***

Mae'r cwmpas ar gyfer prosiectau a gweithgareddau treftadaeth sy'n cael eu hystyried ar gyfer grantiau yn eang, gan gynnwys e.e. prosiectau treftadaeth sy'n addysgu ac yn dathlu hanes Casnewydd a Chymru, gwella gallu'r Gymraeg yn yr ardal, cynyddu diddordeb a dealltwriaeth o wahanol agweddau ar dreftadaeth o fewn poblogaeth amrywiol ac amlddiwylliannol Casnewydd.

Gellir gwneud cais am grantiau at un diben neu gyfuniad o ddeunyddiau, digwyddiadau, lleoedd, offer, technoleg, prosiectau, cyflogau, gwasanaethau a chostau cynnal prosiectau. Mae angen i brosiectau/gweithgareddau fod o fudd i'r gymuned leol naill ai'n uniongyrchol neu drwy fanteision a grëir gan e.e. nifer gynyddol o ymwelwyr a chyfleoedd busnes.

***Grantiau Diwylliant***

Mae'r cwmpas ar gyfer prosiectau a gweithgareddau diwylliant a ystyrir ar gyfer grantiau yn eang, gan gynnwys prosiectau celfyddydau creadigol, addysg a dathlu gwahanol agweddau ar ddiwylliant, o wahanol gyfnodau a lleoliadau, gan wella hunaniaeth ddiwylliannol Casnewydd a'i dinasyddion. Gellir gwneud cais am grantiau ar gyfer cyfuniad o ddeunyddiau, digwyddiadau, lleoedd, offer, technoleg, prosiectau, cyflogau, gwasanaethau a chostau cynnal prosiectau. Mae angen i brosiectau/gweithgareddau fod o fudd i'r gymuned leol naill ai'n uniongyrchol neu drwy fanteision a grëir gan e.e. nifer gynyddol o ymwelwyr a chyfleoedd busnes.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

***Meini prawf ar gyfer yr holl grantiau***

Y meini prawf cyffredinol ar gyfer pob grant a'u gwerthusiad, yw bod yr ymyriadau, y prosiectau a'r gweithgareddau a gynigir yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn hygyrch ac y byddant yn cyrraedd y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw. Rhaid iddynt gyfrannu at y nod o greu cyfleoedd cyfartal i bawb yng Nghasnewydd waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, oedran, lleoliad a statws iechyd. Hefyd, rhaid i brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau fod yn ymwybodol o'r effaith amgylcheddol, ac ystyried eu gwastraff a'r CO2 maent yn ei gynhyrchu cystal ag y gallant ac o fewn eu hystyriaethau cyllidebol.

Bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am grantiau drwy gofrestru ar y platfform whatimpact.com. Rhaid i dderbynyddion grant adrodd ar effaith eu gweithgaredd / prosiect trwy ddefnyddio'r nodwedd adrodd ar yr un platfform. Mae whatimpact yn cynnig cefnogaeth dros fideo, dros y ffôn, mewn e-bost a digwyddiadau ar gyfer y cyfnod ymgeisio ac adrodd. Cymerwch olwg ar y cyfarwyddiadau i gofrestru a mynychu digwyddiadau ar y dudalen hon

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**GWNEUD CAIS AM GRANTIAU**

***Grant Treftadaeth***
***YNGLŶN Â'R CYNLLUN GRANT***

Mae'r grantiau'n cynnig cymorth ar gyfer gwahanol safleoedd, prosiectau a gweithgareddau treftadaeth sy'n cefnogi defnyddio a dysgu Cymraeg a diwylliant Cymru. Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau treftadaeth i gofleidio pob diwylliant, ethnigrwydd a demograffeg.

***ARDAL DDAEARYDDOL BUDDIOLWYR/CYRHAEDDIAD***

Prosiectau a safleoedd sy'n benodol i Gasnewydd. Pobl yng Nghasnewydd

***Y CANLYNIADAU RYDYM AM EU CYFLAWNI***

Gwell Mynediad at y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth

***MEINI PRAWF ERAILL AR GYFER PARU Â GRANT***

Mae sefydliadau sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac sy'n cael eu hariannu gan roddion preifat yn gymwys. Rydym yn blaenoriaethu mentrau nad ydynt wedi'u cofrestru, gyda naill ai hanes profedig neu ddull arloesol sy'n cyflawni trwy dechnoleg.

- ***PRIF GEFNOGAETH A RODDIR***
  Arian
- ***HYD***
  Chwefror 2024 – Mawrth 2025
- ***MATH O GRANT***
  Grant cyfyngedig
- ***DULL TALU***
  Taliad untro

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

***Grant Diwylliant***

***YNGLŶN Â'R CYNLLUN GRANT***

Mae'r Grant Diwylliant yn cynnig cefnogaeth i brosiectau celfyddydol creadigol; prosiectau sy'n gwella hunaniaeth ddiwylliannol Casnewydd a'i dinasyddion a phrosiectau sy'n darparu addysg a dathlu gwahanol agweddau ar ddiwylliant o wahanol gyfnodau a lleoliadau. Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau diwylliannol a chelfyddydol i gofleidio pob diwylliant, ethnigrwydd a demograffeg.

***ARDAL DDAEARYDDOL BUDDIOLWYR/CYRHAEDDIAD***

Prosiectau a safleoedd sy'n benodol i Gasnewydd. Pobl yng Nghasnewydd.

***Y CANLYNIADAU RYDYM AM EU CYFLAWNI***

Gwell Mynediad at y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth

***MEINI PRAWF ERAILL AR GYFER PARU Â GRANT***

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn awyddus i ariannu prosiectau diwylliant a chelfyddydau sydd â'r nod o wella lles dinasyddion Casnewydd ac sy'n denu twristiaeth i'r ardal.

- ***PRIF GEFNOGAETH A RODDIR***
  Arian
- ***HYD***
  Chwefror 2024 – Mawrth 2025
- ***MATH O GRANT***
  Grant cyfyngedig
- ***DULL TALU***
  Taliad untro

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

POWERED BY LEVELLING UP
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

***Grant Chwaraeon***

***YNGLŶN Â'R CYNLLUN GRANT***

Mae'r Grant Chwaraeon yn cynnig cyllid ar gyfer prosiectau fel digwyddiadau chwaraeon, gweithgareddau clybiau chwaraeon, gweithgareddau iechyd a lles, defnyddio chwaraeon ac ymarfer corff i greu cymunedau mwy unedig ac unigolion cryfach. Gall ariannu cyfleusterau chwaraeon, twrnameintiau, timau a chynghreiriau lleol sy'n dod â phobl ynghyd. Gellir eu defnyddio i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n cefnogi'r gymuned leol.

**ARDAL DDAEARYDDOL BUDDIOLWYR/CYRHAEDDIAD**

Prosiectau a safleoedd sy'n benodol i Gasnewydd. Pobl yng Nghasnewydd.

***Y CANLYNIADAU RYDYM AM EU CYFLAWNI***

Gwella iechyd a lles unigolion

***MEINI PRAWF ERAILL AR GYFER PARU Â GRANT***

Mae sefydliadau sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac sy'n cael eu hariannu gan roddion preifat yn gymwys. Rydym yn blaenoriaethu mentrau nad ydynt wedi'u cofrestru, gyda naill ai hanes profedig neu ddull arloesol sy'n cyflawni trwy dechnoleg.

- ***PRIF GEFNOGAETH A RODDIR***
  Arian
- ***HYD***
  Chwefror 2024 – Mawrth 2025
- ***MATH O GRANT***
  Grant cyfyngedig
- ***DULL TALU***
  Taliad untro

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

POWERED BY
LEVELLING UP
WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO